| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 2 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | Brîff Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I fabwysiadu briff yr ymchwiliad ac i ethol aelodau |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mae aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi adnabod bod angen rhoi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Uwchradd y Sir.

2. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2022, ystyriwyd brîff drafft ar gyfer ymchwiliad craffu. Mae ymchwiliad craffu yn edrych i mewn i ddyfnder i bwnc gan gasglu tystiolaeth sydd yn cynnwys gwrando ar brofiadau pobl mewn cyfnod o tua 6 i 9 mis. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor y bwriad i gynnal ymchwiliad ac i wneud hynny mewn modd adeiladol gan wneud argymhellion o fudd yn seiliedig ar dystiolaeth.

3. Mae gan y Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu), rôl i gynghori ar flaenoriaethu ymchwiliadau craffu a hynny yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael. Yng nghyfarfod y Fforwm ar 11 Ionawr 2023, rhoddwyd ystyriaeth i'r brîff drafft ac fe flaenoriaethwyd yr ymchwiliad.

4. Gweler ynghlwm i'r adroddiad, fel atodiad, brîff drafft yr ymchwiliad.

5. Y prif gwestiwn bydd yr ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

   'Beth yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion uwchradd a pha gynlluniau sydd mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yng Ngwynedd?'

6. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried gweithrediad Polisi Iaith Addysg yr Awdurdod mewn tair ysgol uwchradd categori 3 (1 ysgol o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd). Mae'r Adran Addysg yn awgrymu'r ysgolion canlynol ar sail y ffaith y byddai modd cynnwys ystyriaethau ôl-16 mewn 2 allan o'r 3 ysgol, sef:

   - Ysgol Dyffryn Nantlle
   - Ysgol Eifionydd
   - Ysgol Godre'r Berwyn

7. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2022, gwahoddwyd aelodau i ddatgan diddordeb o ran bod yn aelodau o'r ymchwiliad. Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorwyr Cai Larsen, Paul Rowlinson a Rhys Tudur yn dilyn y cyfarfod.

8. Gall uchafswm o 5 aelod fod yn rhan o'r ymchwiliad ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol.

9. **Gofynnir i'r Pwyllgor:**
   **(i) fabwysiadu'r brîff.**
   **(ii) ethol aelodau i ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad.**